**Cyngor Partneriaeth Cymru – 13 Mawrth 2023 – Diweddariad CLlLC ar Newid Hinsawdd**

## Pwrpas

1. Yn yr adroddiad hwn ceir  diweddariad ar waith y pedwar grŵp tasg a gorffen a sefydlwyd gan y  Panel Strategaeth yr Hinsawdd (PSH), gan ddynodi cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y ddogfen Cymru Sero Net (gw.Atodiad 1).  Ceir yma hefyd adroddiad byr ar gyfarfod a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr cronfeydd pensiwn Cymru ym mis Ionawr 2023 i drafod datgarboneiddio cronfeydd.

## Cefndir

2. Rhoddodd adroddiad i gyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth ar 8 Tachwedd drosolwg o waith pob un o'r grwpiau tasg a gorffen. Ers hynny, mae pob grŵp wedi adrodd i'r prif  PSH ar gynnydd yn erbyn eu hymrwymiadau Cymru Sero Net perthnasol. Mae crynodeb o bob un o'r adroddiadau hynny wedi'i gynnwys isod. Mae pob grŵp wedi edrych ar yr ymrwymiadau perthnasol (gw. Atodiad 1) ac wedi asesu cynnydd hyd yma, pa un yw hynny wedi'i ysgogi gan y grŵp neu drwy ddulliau eraill.

## Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau

## (a) Caffael

3. Mae'r cynnydd i'w adrodd cysylltiedig â chaffael fel a ganlyn:

   - Hydref 2022 - comisiynodd y grŵp adroddiad *"Cefnogi ALl gyda datgarboneiddio allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a gafaelir"* a oedd yn argymell:

     - Mabwysiadu WPPN 06/21[1] a Chynlluniau Lleihau Carbon (CLlC) yn gynnar[2]
     - Cyflwyno gofyniad i ddilysu Cynlluniau Lleihau Carbon.
     - Cyflwyno Pecyn Cymorth a Chanllawiau Caffael Cynaliadwy ar gyfer cynghorau, a ddatblygwyd gan raglen hinsawdd WLGA, sy'n amlygu adnoddau a dulliau o fynd i'r afael â gollyngiadau carbon ymhellach.

   - Dechrau 2023 – lansiwyd Pecyn Cymorth Caffael Cynaliadwy ALl CLlLC, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu ym mis Mawrth a mis Medi

.
[1]WPPN yw Nodiadau Polisi Caffael Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

- Newidiwyd y cynlluniau cychwynnol ar gyfer peilota'r Pecyn Cymorth gyda dau gyngor yn sgil adborth gan y gymuned gaffael a masnachol a chytunwyd yn lle hynny i gefnogi pob un o'r 22 cyngor drwy:
    - Wella'r Pecyn Cymorth Caffael Cynaliadwy gyda mwy o ffocws ar ofal cymdeithasol
    - cefnogi cynghorau a'u cadwyni cyflenwi i gynhyrchu Cynlluniau Lleihau Carbon
    - mapio gweithgarwch a theclynnau Sero Net ar draws y sector cyhoeddus i gynorthwyo â chydweithio ac osgoi dyblygu.

**(b) Cludiant**

4. Mae'r cynnydd i'w adrodd ar gludiant fel a ganlyn:

    - Cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Cymru sy'n cael ei gefnogi gan Drafnidiaeth Cymru: mae rhwystrau'n cynnwys capasiti'r grid, oedi o ran cysylltu â materion cyfreithiol
    - Cynnydd gyda thrawsnewid y fflyd - enghraifft dda o weithredu unigol ac ar y cyd, ond yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o gynghorau ar ei hôl hi. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i bob ALl gynllunio ar gyfer trawsnewid eu fflyd.
    - Nid yw ymrwymiad sero net ar fysus a thacsis yn gyfan gwbl yn nwylo llywodraeth leol ond mae cynnydd i'w adrodd (e.e. cynlluniau peilot tacsis 'treialu cyn prynu')
    - Gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gymudo a'r 'fflyd lwyd'

**(c) Adeiladau**

5. Mae'r cynnydd i'w adrodd ar y defnydd o adeiladau fel a ganlyn:

    - Roedd cynllun strategol yn ymwneud ag ystâd pob awdurdod lleol, yn cynnwys tai cyngor yn eu meddiant, i gael ei ddatblygu erbyn diwedd 2023. Mae'r gwaith hwn ar ei hôl hi ond yn 2022 comisiynodd Ystadau Cymru astudiaeth yn canolbwyntio ar Ogledd Cymru ac yn edrych ar faint a natur y strategaeth datgarboneiddio ar gyfer adeiladau hyd 2030 ac mae'r gwaith hwn yn cael ei adeiladu arno, gan edrych ar gynlluniau rhesymoli ystadau'r cyngor
    - Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Grant Gwres Carbon Isel ar gyfer Cynghorau Bob blwyddyn o 2023/4 tan 2025/26 bydd £20 miliwn ar gael am waith cyfalaf ar gyfer ôl-osod atebion gwres carbon isel mewn adeiladau annomestig sy'n eiddo i'r awdurdod.
    - O dan y Rhaglen Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio mae'r Cynghorau a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod mesurau datgarboneiddio yn y stoc tai cymdeithasol presennol.

- Mae rhai cynghorau wedi cynnal astudiaethau i gost datgarboneiddio ac mae gwaith yn cael ei gomisiynu i goladu'r darlun ar draws Cymru
- Mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn gweithio tuag at Sero Net, gyda disgwyliad bod yr holl brosiectau ysgolion yn awr yn gorfod dangos gostyngiad mewn carbon yn eu hadeiladau a'u gweithredoedd.

**(d) Y defnydd o dir**

6. Mae'r cynnydd i'w adrodd ar y defnydd o dir fel a ganlyn:

    - Cafodd daliadau tir awdurdodau lleol eu mapio i baratoi ar gyfer datblygiad teclyn defnydd o dir digidol.
    - Mae'r teclyn, a ddatblygwyd ar y cyd â MapDataCymru, yn adnodd sy'n rhoi tystiolaeth i arweinwyr i'w cynorthwyo â phenderfyniadau ar y defnydd o dir
    - Mae hanner diwrnod o hyfforddiant ar y teclyn yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl cyngor.
    - Bydd Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hymestyn o wanwyn 2024, gan helpu gyda'r ymrwymiad mawndiroedd.
    - Mae'r grŵp bellach wedi ystyried y mater o wrthbwyso, gan nodi y dylid ei ddefnyddio dim ond fel y dewis olaf, unwaith y bydd yr holl gamau datgarboneiddio posibl wedi'u cymryd.

7. Ym mhob un o'r pedwar maes hwn felly, mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn ymrwymiadau'r cynghorau. Bydd yn heriol gwneud rhagor o gynnydd yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol y mae pob cyngor yn eu hwynebu. Fodd bynnag, gall rhai o'r mesurau arbed arian a/neu gynhyrchu incwm dros eu hoes (e.e. cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir y cyngor, llai o adeiladau a mwy o adeiladau ynni effeithlon, cerbydau trydan gyda chostau rhedeg a chynnal a chadw is).

8. Yn ychwanegol, mae angen archwilio dulliau arloesol o ariannu prosiectau. Os ymgymerir yn strategol â phob prosiect ac ar raddfa fawr ar draws cynghorau, fe allai costau uned fod yn is (fel y canfuwyd yn yr ymarfer caffael cerbydau trydan cydweithredol diweddar). Efallai hefyd y bydd ffynonellau benthyca gan ddefnyddio cyfalaf tymor estynedig gyda thelerau ad-dalu hir a/neu dim ad-daliadau yn y blynyddoedd cyntaf.

**Digwyddiad Cronfeydd Pensiwn**

9. Ym mis Rhagfyr 2023 hwylusodd CLlLC, ar y cyd â Chyfeillion y Ddaear, ddigwyddiad i adeiladu ar sgyrsiau ar draws Cymru am ddatgarboneiddio cronfeydd pensiwn. Gwahoddwyd aelodau a swyddogion i'r digwyddiad a gafodd ei gadeirio gan y Cynghorydd Chris Weaver, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

10. Rhannodd nifer o siaradwyr gwadd arbenigol eu profiad o symud tuag at bensiwn cynaliadwy. Roedd y siaradwyr yn cynnwys:
    - Yr Athro Iain Clacher o Ysgol Fusnes Prifysgol Leeds (Ian Clacher)
    - Sarah Foster o The Good Economy (Creating a Good Economy | The Good Economy)
    - Jeff Dong o Gronfa Bensiynau Abertawe (Croeso (swanseapensionfund.org.uk)).

11. Bu hefyd drafodaeth lawn ar y materion canlynol:
    - Beth yw'r heriau o ran datgarboneiddio pensiynau? Sut allwn ni oresgyn y rhwystrau hyn?
    - Sut all buddsoddi gyfrannu at gynaliadwyedd?
    - Beth yw'r camau nesaf? Pa gefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen?

12. Cydnabuwyd mai prif swyddogaeth y cronfeydd yw sicrhau bod digon o arian i ddiwallu anghenion pensiwn eu haelodau. Fodd bynnag roedd cytundeb cyffredinol ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio siâr o'r cyllid i ehangu'r sectorau sy'n cynhyrchu elw ond sydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y nodau sero net a gwrthdroi colled natur. Cafodd tai fforddiadwy, cyllid SME targedig, ynni glân a chyfalaf naturiol i gyd eu crybwyll fel enghreifftiau posibl. Nodwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatblygu fframwaith cyffredin y gall yr wyth cronfa yng Nghymru weithio tuag ato er mwyn datgarboneiddio.

13. Tra bo llawer o fuddsoddiad cronfeydd pensiwn mewn bondiau rhestredig byd-eang ar hyn o bryd, nodwyd posibiliadau cysylltiedig â mwy o ffocws ar fuddsoddiadau a fydd yn cael effaith ar eu hardal leol (PBI). Er enghraifft mae cronfa Manceinion Fwyaf ar hyn o bryd yn buddsoddi 5% mewn prosiectau yn y rhanbarth' Clywodd y cyfarfod hefyd am fuddsoddiad Cronfa Abertawe mewn coed a glaswelltir cynaliadwy gan gyfrannu at secwestriad carbon a bioamrywiaeth.

14. Cafodd y cynnig i gynnal cyfarfod arall i archwilio'r materion hyn ymhellach ei gefnogi. Mae CLlLC wedi cynnal cyfarfod gyda Chyfeillion y Ddaear i ddechrau cynllunio ar gyfer cyfarfod dilynol.

**Argymhellion**

15. Argymhellir bod y Cyngor Partneriaeth yn nodi'r cynnydd y mae'r grwpiau tasg a gorffen PSH wedi'i wneud a hefyd y trafodaethau sydd ar y gweill ynghylch y posibilrwydd o ddatgarboneiddio cronfeydd pensiwn.

## ATODIAD 1 – ymrwymiadau Llywodraeth Leol

Mae'r ymrwymiadau y mae llywodraeth leol wedi'u gwneud a'u cynnwys yng Nghymru Sero Net (ail gynllun cyflawni Carbon Isel Cymru Gyfan (2021-2025)) i'w gweld yn y tabl isod.

### Net Zero Wales LG Commitments

| |
|---|
| **Buildings**<br>- Develop and deliver a strategic plan for decarbonising local authority estate.<br><br>Ystadau Cymru as strategic lead;<br>- Strategic plan for decarbonising buildings by end of 2023.<br>- All public buildings supplied with low carbon heat by 2030.<br>- All new public sector buildings are built to net zero standard. |
| **Procurement**<br>- Develop understanding of emissions profile of all procured goods and services by end of 2022.<br>- Carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts.<br>- Focus on a number of priority contracts and share learning re. decarb across LAs by end 2022 – to develop a decarb approach to be applied to all contracts by 2023. |
| **Mobility & Transport**<br>- Build on fleet reviews and develop plans for transforming fleet, inc. EV charging infrastructure, all new cars and light goods vehicles ULEV by 2025, reduce carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030.<br>- Grey fleet review to be completed by end of 2022 (working with WGES)<br>- Support remote working where possible, at home or in hubs. Encourage active travel and public transport. |
| **Land Use**<br>- Map out local authority land holdings by April 2022 to identify types of land and their potential for carbon sequestration, renewable energy and flood management.<br>- Carbon sequestration seen as a core purpose for public land by leaders.<br>- Develop 5 year training and apprenticeship programme and peatland restoration to support the supply chain. |